# Cyngor Partneriaeth Cymru

## 14 Hydref 2020

| | |
|---|---|
| **Gweinidogion Llywodraeth Cymru** | |
| Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol | Julie James AS |
| Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol | Hannah Blythyn AS |
| **Awdurdodau lleol** | |
| Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Y Cynghorydd Andrew Morgan |
| Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion | Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn |
| Arweinydd Cyngor Conwy | Y Cynghorydd Sam Rowlands |
| Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd | Y Cynghorydd Jane Mudd |
| Arweinydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe | Y Cynghorydd Robert Stewart |
| Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych | Y Cynghorydd Hugh Evans OBE |
| Cyngor Sir Ceredigion | Y Cynghorydd Ray Quant (Yn lle'r Cynghorydd Mair Stevens) |
| Arweinydd Cyngor Caerdydd | Y Cynghorydd Huw Thomas |
| Comisiynwyr Heddlu a Throseddu | Mark Brace yn bresennol yn lle Mr Alun Michael |
| Awdurdodau Tân ac Achub | Y Cyng. Tudor Davies |
| Parciau Cenedlaethol | Paul Harries |
| Cynrychiolydd Cynghorau Cymuned | Y Cynghorydd Michael Cuddy |
| Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Y Cynghorydd Huw David |
| Cynrychiolydd GIG Cymru a Byrddau Iechyd Lleol | Maria Battle |
| **Sylwedyddion** | |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Peter Davies, Cadeirydd |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Chris Llewellyn, Prif Weithredwr |
| Un Llais Cymru | Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr |
| Swyddfa Archwilio Cymru (Sylwedydd) | Huw Rees |
| **Ymddiheuriadau** | |
| Swyddfa Archwilio Cymru (Sylwedydd) | Adrian Crompton |
| Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych | Y Cynghorydd Mair Stevens |

**Croeso a Chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr holl aelodau a diolchodd iddynt am fod yn bresennol.

2. Ymddiheurodd y Gweinidog ar ran y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (CC), Jeremy Miles, nad oedd yn gallu bod yn bresennol. Byddai'r Gweinidog a Liz Lilley yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Covid-19 ar ran y CC. Croesawodd y Gweinidog Piers Bisson i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran Pontio Ewropeaidd.

**Pontio Ewropeaidd**

3. Dywedodd Piers Bisson fod y cyfnod hwnnw'n un hollbwysig gan fod y Cyngor Ewropeaidd yn cyfarfod yn ddiweddarach yr wythnos honno, a bod y canlyniad yn ansicr. Soniodd Piers nad oedd neb yn rhagweld y byddai cytundeb ar sail y cyfarfod hwnnw. Y cwestiwn oedd a fyddai digon o gynnydd yn cael ei wneud i olygu bod cytundeb mewn golwg, neu a oedd gwahaniaethau sylfaenol i'w datrys o hyd.

4. Cyfeiriodd Piers at y 3 phrif faes a oedd yn dal heb eu datrys: pysgodfeydd a mynediad i ddyfroedd y DU; cymorth gwladwriaethol a sut olwg allai fod ar drefn cymorth gwladwriaethol Llywodraeth y DU yn y dyfodol; ynghyd â llywodraethu, ac a oedd yr UE yn teimlo bod ganddo ddigon o sicrwydd o ran y ffyrdd cyfredol o ddatrys anghydfodau.

5. Dywedodd Piers fod safbwynt Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir iawn a'i bod yn bwysig parhau â'r trafodaethau hyd yn oed os nad oedd cytundeb mewn golwg eto. Roedd yn bwysig parhau i ymdrechu i sicrhau'r cytundeb gorau posibl.

6. Roedd yna gytundebau masnach eraill yr oedd Llywodraeth y DU yn bwriadu mynd ar eu hôl gyda gwledydd eraill, gan gynnwys cytundeb gyda Japan, a oedd yn un y cytunwyd arno mewn egwyddor.

7. Pa un a fyddai cytundeb yn y golwg erbyn diwedd y flwyddyn ai peidio, dywedodd Piers y dylid disgwyl llawer o newidiadau o fis Ionawr ymlaen, yn enwedig i fusnesau sy'n mewnforio ac yn allforio data personol rhwng y DU a'r UE, ac y dylid hefyd ddisgwyl newidiadau i'r rheolau mudo. Dywedodd Piers fod Covid19 wedi rhoi pwysau ychwanegol ar fusnesau a bod angen iddynt baratoi orau y gallent ar gyfer y cyfnod pontio, a bod cydweithwyr yn sector yr economi yn edrych ar sut orau i gynnig cymorth.

8. Pwysleisiodd Piers pa mor bwysig oedd parhau i gyfathrebu, yn enwedig o ran y newidiadau a ddisgwylid i yswiriant teithio ac i drwyddedau gyrru.

9. Un peth a oedd yn peri pryder mawr oedd y problemau ar y ffiniau. Dywedodd Piers y gallai busnesau nad oeddent yn barod am y newidiadau arwain at sefyllfa lle y byddai nwyddau hanfodol fel meddyginiaethau a bwyd yn cael eu dal yn ôl ar y ffin. Dywedodd Piers fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r effaith y

byddai hynny'n ei chael ar ein cymunedau a'n busnesau, ar ben effaith y pandemig Covid-19. Roedd gwaith dwys ar y gweill gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid i fynd i'r afael â'r mater hwn.

10. Roedd y rhagdybiaethau am y sefyllfa waethaf bosibl wedi dod i law ac wedi cael eu rhannu yn gynharach yr wythnos honno gyda Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a phartneriaid.

11. Roedd ystod eang o gyfrifoldebau gweithredol eraill nad oeddent wedi'u rhoi ar waith eto ac y byddai angen gweithredu arnynt yn ystod camau olaf y cyfnod pontio.

12. Roedd yn bwysig bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfathrebu, yn enwedig yn ystod y cyfnod yn arwain at fis Ionawr. Roedd Bil y Farchnad Fewnol yn codi pryderon mawr am bolisïau datganoledig fel diogelu cymdeithasol a diogelu'r amgylchedd, ac roedd yn peri pryderon penodol am fynediad at gyllid yr UE ac am oedi wrth gyflwyno cronfeydd ffyniant y DU.

13. Diolchodd y Gweinidog i Piers am ei amser a gofynnodd i'r rheini a oedd yn bresennol beidio â gofyn unrhyw gwestiynau er mwyn i Piers fedru gadael y cyfarfod. Byddai'r Gweinidog yn trosglwyddo unrhyw gwestiwn na fyddai'n gallu ei ateb i Piers ar ôl y cyfarfod.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

14. Cytunwyd ar y cofnodion.

**<u>Eitem 1: Adferiad ar ôl Covid-19</u>**

15. Dywedodd y Gweinidog mai Jeremy Miles, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (CC), oedd y Gweinidog a oedd yn arwain ar ran y Llywodraeth ar yr Adferiad ar ôl Covid-19 ond, yn anffodus, nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Byddai'r Gweinidog yn rhoi cyflwyniad cryno ac yna'n gwahodd Liz Lalley i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.

16. Mynegodd y Gweinidog ei diolch i CLILC ac i'r holl gydweithwyr a fu'n gweithio ar y pecyn ysgogi economaidd. Roedd y Gweinidog yn croesawu'r cynnwys, a dywedodd fod y cynigion yn cyd-fynd yn dda â chynigion adfer y Llywodraeth.

17. Yn y tymor hwy, roedd y Gweinidog yn dymuno sefydlu trefniadau ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, CLILC a phartneriaid eraill i ystyried y ffordd orau o gysoni blaenoriaethau strategol a chyllid. Roedd gan y Gweinidog ddiddordeb arbennig mewn nodi'r hyn yr oedd modd ei gyflawni ar flaenoriaethau cychwynnol yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac ar ddechrau'r flwyddyn nesaf a thu hwnt.

18. Gofynnodd y Gweinidog i CLILC gynnull grŵp bach o wleidyddion, arbenigwyr a swyddogion eraill i ystyried hyn.

19. Cadarnhaodd Liz Lalley fod y ddogfen Adfer at y Dyfodol wedi'i chyhoeddi yr wythnos diwethaf a'i bod yn gasgliad ac yn gyfuniad o sgyrsiau yr oedd y CC wedi'u cynnal gyda phobl ledled Cymru. I ddilyn y ddogfen, roedd y CC wedi gwahodd dinasyddion, cymunedau, busnesau ac eraill ledled Cymru i fod yn rhan o'r gwaith ar adfer at y dyfodol, ac roedd dros 2 fil o ymatebion wedi dod i law. Yn ogystal, roedd y CC wedi cadeirio cyfres o ddigwyddiadau bord gron er mwyn trafod â chynifer o sectorau â phosibl, yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd grŵp arbenigol i nodi'r heriau mwyaf yr oedd Cymru yn eu hwynebu o ganlyniad i argyfwng Covid-19.

20. Tynnodd Liz sylw at 8 blaenoriaeth yr oedd gofyn gweithredu arnynt ar unwaith:
    - Cadw pobl mewn swyddi a chreu cyfleoedd gwaith newydd gan gydnabod y sefyllfa economaidd anodd sydd ohoni
    - Cefnogi pobl ifanc i aros ym myd addysg cyhyd ag y bo modd
    - Adeiladu mwy o dai fforddiadwy a chefnogi gwaith adeiladu carbon isel
    - Buddsoddi mewn trefi lleol a chanol trefi
    - Parhau i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a bwrw ymlaen â'r agenda datgarboneiddio
    - Y Strategaeth Drafnidiaeth, yr Economi Sylfaenol yn helpu i gefnogi busnesau lleol
    - Cefnogi'r GIG i wneud iawn am y tir a gollwyd oherwydd pandemig Covid

21. Dywedodd Liz mai'r camau nesaf fyddai canolbwyntio ar gyflawni'r 8 blaenoriaeth allweddol hynny. Byddai'r CC yn sicrhau y byddai'r adroddiad yn cael ei anfon at bawb a ysgrifennodd, a byddai'n ceisio hyrwyddo sgwrs genedlaethol barhaus.

22. Diolchodd y Gweinidog i Liz am ei diweddariad.

23. Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan fod angen symud yn gyflym i gyflawni ar lawr gwlad. Nododd y Cynghorydd Morgan ei bod yn bwysig gwahodd llefarwyr y gwrthbleidiau i'r grŵp er mwyn cael cefnogaeth ar draws y sbectrwm gwleidyddol. Roedd Andrew yn croesawu'r ffordd o weithio a amlinellwyd gan Liz ond pwysleisiodd ei bod yn allweddol gwneud penderfyniadau'n gyflym.

24. Roedd y Gweinidog yn cytuno.

25. Gofynnodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn i'r wybodaeth a roddir i Fforymau Lleol Cymru Gydnerth gael ei rhannu gydag arweinwyr hefyd er mwyn sicrhau goruchwyliaeth ddemocrataidd.

26. Gofynnodd y Cynghorydd ap Gwynn hefyd am eglurder ynghylch yr hyn a oedd wedi'i gynnwys yng nghronfa adfywio Covid-19, a oedd yn werth £320 miliwn, gan ddweud bod ei hawdurdod wedi cyflwyno cynigion ar gyfer cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif, a chyllid adfywio arfordirol ond nad oedd yn siŵr a oedd y meysydd hynny'n cael eu cynnwys.

27. Dywedodd Reg Kilpatrick mai fforymau cynllunio gweithredol oedd Fforymau Lleol Cymru Gydnerth yn y bôn ac nad oeddent, felly, yn ymgysylltu ar lefelau

gwleidyddol fel arfer. Er hynny, pwysleisiodd Reg fod Llywodraeth Cymru, yn achos Brexit a Covid-19, wedi annog trafodaethau gydag awdurdodau lleol.

28. Dywedodd Liz Lalley fod y pot o £320 miliwn yn Gronfa ar wahân mewn ymateb i Covid, ac y byddai'n gwirio'r manylion. Cadarnhaodd y Gweinidog mai dyna oedd ei dealltwriaeth hithau hefyd.

29. Dywedodd y Gweinidog fod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APCau) wedi mynegi diddordeb mewn cael cyllid i ymgymryd â gwaith ar brosiect datgarboneiddio cymunedol, a dywedodd y Gweinidog ei bod yn gobeithio sicrhau bod cysondeb rhwng y gwaith datgarboneiddio a wneir ar draws yr awdurdodau lleol a'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

    **GWEITHREDU:** Gofynnodd y Gweinidog i CLlLC gynnull grŵp bach o wleidyddion, arbenigwyr a swyddogion eraill i ystyried sefydlu trefniadau ar y cyd rhwng CLlLC a phartneriaid eraill i ystyried y ffordd orau o sicrhau y byddai llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn gweithredu mewn ffordd gydnaws ar flaenoriaethau, ac wrth ddefnyddio cyllid. Roedd gan y Gweinidog ddiddordeb penodol mewn nodi'r hyn yr oedd modd ei gyflawni ar flaenoriaethau cychwynnol yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac yn yr hyn a fyddai'n bosibl y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

    **GWEITHREDU:** CLlLC a LlC

**Eitem 2 ar yr Agenda – Canol Trefi a'r Economi Gylchol**

30. Cyflwynodd y Gweinidog y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, Hannah Blythyn AS, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr eitem hon.

31. Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r partneriaid ac i bawb a oedd wedi gweithio ar y cyllid a gafodd ei addasu at ddibenion gwahanol am lwyddo i'w ddosbarthu mor gyflym. Roedd y cyllid hwnnw wedi helpu gydag addasiadau yng nghanol trefi, gwresogi/seddi yn yr awyr agored etc. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y gwaith wedi'i wneud mewn ffordd a oedd yn mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol ond ei fod hefyd yn cynnig ffordd wahanol inni edrych ar ganol trefi, ac roedd yn awyddus i glywed unrhyw awgrymiadau ar sut i fwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw yn y dyfodol.

32. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi cael nifer sylweddol o geisiadau o dan Gronfa'r Economi Gylchol a'i bod yn falch o fedru dweud bod arian ychwanegol wedi'i sicrhau i gefnogi amrywiaeth o brosiectau mewn trefi a chymunedau.

33. Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd ei bod yn awyddus i edrych ar rôl Cynghorau Cymuned a Thref yn y dyfodol o ran cyflawni amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys prosiectau seilwaith gwyrdd.

34. Diolchodd y Gweinidog i'r Dirprwy Weinidog am ei diweddariad.

35. Croesawodd y Cynghorydd Hugh Evans ddiweddariad y Dirprwy Weinidog a'r buddsoddiad ariannol yng nghanol trefi.

36. Dywedodd y Cynghorydd Evans fod y cyfyngiadau symud wedi creu dryswch i drigolion ynglŷn â'r ffordd orau o gefnogi eu trefi, ac y byddai angen i ganllawiau ar fuddsoddi ariannol fod yn ddigon hyblyg i sicrhau manteision i drefi ledled Cymru.

37. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n ysgrifennu at bob awdurdod lleol er mwyn ystyried a deall sut y gallai deddfwriaeth gyd-fynd yn well â'u strategaethau unigryw ar gyfer canol trefi, gan gynnwys helpu pobl i deimlo'n fwy diogel wrth ddychwelyd i ganol trefi.

38. Diolchodd y Cynghorydd Mike Cuddy i'r Dirprwy Weinidog am ei diweddariad hefyd, gan ddatgan ei farn mai newid diwylliant a meddylfryd, fel y nodir yn y ddogfen Lleoedd Gwell, oedd y rhwystrau mwyaf i'w goresgyn.

39. Dywedodd y Cynghorydd Huw Thomas fod y ffrwd ariannu hefyd ar gael i ddinasoedd yn ogystal â threfi, gan gydnabod nad yw'r derminoleg bob amser yn glir. Tynnodd y Cynghorydd Thomas sylw at y ffaith mai ar ôl Llundain, Caerdydd oedd wedi dioddef yr ergyd fwyaf o ran nifer yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas. Roedd 45,000 o swyddi ym maes manwerthu, lletygarwch a hamdden yng nghanol Dinas Caerdydd − swyddi a wneir yn bennaf gan drigolion o ardaloedd sy’n agos i ganol y ddinas. Rhai o’r ardaloedd hynny oedd yr ardaloedd mwyaf ethnig amrywiol ac economaidd ddifreintiedig yng Nghymru.

40. Anogodd y Cynghorydd Thomas Lywodraeth Cymru i edrych ar gymorth penodol wedi'i thargedu ar gyfer canol dinasoedd ac i helpu i newid y feddylfryd bod canol dinasoedd yn gwneud yn iawn, er mwyn helpu i osgoi trychineb economaidd.

41. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y pwysau ar ganol dinasoedd yn fater ar wahân i'w drafod gyda phartneriaid a dywedodd y byddai’n trafod â'i chydweithwyr yn adran yr economi i ganfod y ffordd orau o fynd i’r afael â’r heriau penodol y mae canol dinasoedd yn eu hwynebu.

42. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cael sgyrsiau penodol gydag ardaloedd dinesig ac ardaloedd maestrefol a’i bod wrthi’n ystyried y materion hynny yng nghyd-destun y pecyn buddsoddi.

    **GWEITHREDU:** Y Dirprwy Weinidog i ysgrifennu at bob awdurdod lleol er mwyn ystyried a deall sut y gallai deddfwriaeth gyd-fynd yn well â'u strategaethau unigryw ar gyfer canol trefi, gan gynnwys helpu pobl i deimlo'n fwy diogel wrth ddychwelyd i ganol trefi.

    **GWEITHREDU:** Y Dirprwy Weinidog i gysylltu â chydweithwyr yn Adran yr Economi i drafod y ffordd orau o roi cymorth i ymdopi â’r heriau penodol sy'n wynebu canol dinasoedd.

**Eitem 2 ar yr Agenda – Diweddariad gan CGGC**

43. Gwahoddodd y Gweinidog Peter Davies, Cadeirydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trydydd sector a'r sector gwirfoddol ar ôl y cyfarfodydd a gafodd yn ddiweddar gyda'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol.

44. Dywedodd Peter Davies ei fod wedi ysgrifennu at y Gweinidog ar ôl y trafodaethau gyda chadeiryddion y Cynghorau Gwirfoddol Sirol sydd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli tîm llywodraethu Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Roedd y trafodaethau wedi canolbwyntio ar yr angen, wrth fynd ati i ysgogi ac i gynllunio adferiad, i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng buddsoddiad o'r brig i lawr a rhoi cymorth i greu adferiad dan arweiniad y gymuned.

45. Dywedodd Peter fod angen asesiad o'r berthynas rhwng y strwythurau lleol iawn a'r rhai rhanbarthol, gan bwysleisio ei bod yn bwysig adeiladu ar yr hyn a ddysgir ac ar y gwaith o sefydlu'r perthnasau hynny, gan gydnabod ar yr un pryd y nodweddion penodol sy'n perthyn i waith datblygu a arweinir gan y gymuned.

46. Dywedodd Peter y dylai'r cynllun adfer gynnwys camau ymarferol i alluogi ymateb a arweinir gan y gymuned, yn hytrach na bod yn rhestr o brosiectau a fydd yn glanio ar gymunedau. Tynnodd Peter sylw at Sir Benfro fel enghraifft o le lle mae grwpiau cymunedol yn datblygu ffordd newydd o weithio.

47. Diolchodd y Gweinidog i Peter am ei ddiweddariad, a dywedodd y byddai'n gweithio gydag ef yn y dyfodol i ddeall yn well sut i ymgorffori'r ethos hwnnw yn y gwaith a wneir yn y dyfodol.

48. Roedd Mike Cuddy yn croesawu sylwadau Peter. Dywedodd Mike fod yna strwythurau rhanbarthol o dan fframwaith y partneriaethau canol trefi ac y gellid eu defnyddio nhw i gryfhau at y dyfodol yn unol â dymuniadau Peter.

49. Ategodd Chris Llewellyn sylwadau Peter a Mike. Tynnodd Chris sylw at sut yr oedd y gymuned wedi dod at ei gilydd i wynebu heriau diweddar gan ddangos bod cysylltiadau agos rhyngddynt a'u hardaloedd lleol. Dywedodd Chris fod pawb yn cydnabod mai dyma'r elfennau sylfaenol yr oedd angen inni adeiladu arnynt, a dysgu gwersi wrth symud ymlaen.

**Eitem 3 ar yr agenda – Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

50. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (y Bil) wedi pasio Cyfnod Dau, sef cael ei ystyried gan Bwyllgor. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ar Gyd-bwyllgorau Corfforaethol ar gyfer llywodraeth leol, y Parciau Cenedlaethol a rhanddeiliaid eraill.

51. Byddai Cyfnod 3 y Bil yn mynd gerbron y Senedd ar 10 Tachwedd, a chan gymryd y byddai'n parhau ar ei daith, byddai'r Bil yn cael ei gyflwyno i gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2021.

52. Anogodd y Gweinidog yr aelodau i fod yn rhan o'r gwaith sydd wrthi'n cael ei wneud i ddatblygu'r Rheoliadau Sefydlu drafft ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.

53. Cadarnhaodd y Gweinidog fod yr ymgynghoriad ffurfiol ar y rheoliadau wedi'i lansio ac fe'u hanogodd i fanteisio ar y cyfle i fynegi barn ar sut orau i sicrhau y byddai'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn gweithio'n effeithiol ac yn ychwanegu gwerth at lywodraeth leol.

54. Esboniodd y Gweinidog y byddai cyfres o sesiynau briffio technegol ar lefel ranbarthol hefyd i ganolbwyntio ar y swyddogaethau a fyddai'n cael eu trosglwyddo i'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (cynllunio datblygiadau strategol, cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol a rhai swyddogaethau datblygu economaidd). Dywedodd y Gweinidog ei bod yn gobeithio y byddai pobl yn cymryd rhan mor eang â phosibl yn y broses.

55. Tynnodd y Gweinidog sylw'r aelodau at ail ymgynghoriad hefyd, y tro hwn ar Ran 6 o'r Bil (Perfformiad a Llywodraethu), a fyddai'n cael ei lansio ar 11 Tachwedd. Byddai'r ymgynghoriad hwnnw'n ymwneud yn benodol â'r canllawiau drafft i hwyluso'r broses o roi'r drefn perfformiad a llywodraethu newydd ar waith.

56. Mynegodd rhai o'r aelodau bryder ynglŷn â diben Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ac am lefel y fiwrocratiaeth yr oeddent yn rhagweld a fyddai'n gysylltiedig â nhw, yn enwedig yng nghyd-destun y pwysau ar yr awdurdodau o ganlyniad i Covid-19.

57. Diolchodd y Gweinidog i'r ddau am eu sylwadau. Roedd y Gweinidog yn cydymdeimlo â nhw am y pryderon yr oedd ganddynt am yr amserlenni ond dywedodd fod y rheini'n dilyn amserlen y Senedd ac na allai newid hynny.

58. Cadarnhaodd y Gweinidog y dylai trefniadau'r Cyd-bwyllgorau leihau biwrocratiaeth, a nododd ei bod yn barod i weithio gydag arweinwyr i sicrhau hynny. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn golygu y byddai modd gwneud penderfyniadau'n lleol, er enghraifft, pe bai awdurdodau Gogledd Cymru yn penderfynu cyfuno Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru â'r trefniadau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.

59. Cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd Gwella Addysg ar y rhestr o swyddogaethau i'w cyflawni gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol oherwydd bod trafodaethau'n mynd rhagddynt ar drefniadau posibl ar gyfer y maes hwnnw.

60. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai hyblygrwydd lleol i ranbarthau sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn cyd-fynd ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

**GWEITHREDU:** Cadarnhaodd y Gweinidog y dylai'r trefniadau ar gyfer

Cyd-bwyllgorau Corfforaethol leihau biwrocratiaeth a nododd ei bod yn barod i weithio gydag arweinwyr i sicrhau hynny.

**Eitem 4 ar yr Agenda – Datgarboneiddio**

61. Dywedodd y Gweinidog fod datgarboneiddio a'r newid yn yr hinsawdd wedi cael lle blaenllaw wrth ystyried cynlluniau adfer a datblygu economaidd mewn ymateb i Covid. Tynnodd y Gweinidog sylw at wythnos hinsawdd Cymru (2-6 Tachwedd) a fyddai'n nodi dyddiad gwreiddiol COP26 y Cenhedloedd Unedig. Anogodd y Gweinidog yr aelodau i ymuno â'r digwyddiadau rhithwir a oedd wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnos honno.

62. Dywedodd y Gweinidog fod gweithio ar sail 'tîm Cymru' cryf yn hanfodol er mwyn datblygu'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel nesaf, gan nodi bod y gwaith partneriaeth a oedd ar y gweill mewn meysydd fel ailgylchu a'r economi gylchol yn enghreifftiau gwych o hynny.

63. Nododd y Gweinidog y cyfleoedd yng Nghymru i sicrhau adferiad gwyrdd, a bod y broses honno'n cael ei chefnogi gan y gwaith i ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel a strategaeth yr Economi Gylchol, gan helpu i dynnu sylw at ein cynlluniau adfer gwyrdd a'r hyn a oedd wedi'u gyflawni yng Nghymru.

64. Atgoffodd y Gweinidog yr aelodau i swyddogion gael cais yn y cyfarfod diwethaf i sefydlu panel strategaeth datgarboneiddio, grŵp strategol newydd o Brif Weithredwyr awdurdodau lleol a Chyfarwyddwyr yr Amgylchedd a fyddai'n datblygu rhywfaint ar y syniadau yn y maes hwnnw ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Partneriaeth. Roedd y cylch gorchwyl wedi cael ei gylchredeg ac roedd y broses o ddewis yr aelodau wrthi'n cael ei chwblhau, gyda'r bwriad o gynnal y cyfarfod cyntaf yn ystod Wythnos yr Hinsawdd.

65. Roedd y Gweinidog yn falch o gyhoeddi y gallai aelodau'r Cyngor Partneriaeth gymeradwyo'r Datganiad ar y cyd ar Ddatgarboneiddio yn ffurfiol gan fod y sylwadau am y strategaeth wedi bod yn gwbl gadarnhaol.

66. Dywedodd Shavanah Taj, TUC Cymru, y byddai'n ddefnyddiol cael cynrychiolaeth o blith yr undebau ar y panel datgarboneiddio, yn fwy penodol, cynrychiolaeth werdd amgylcheddol, a fyddai, y teimlai, yn chwarae rhan allweddol wrth gyrraedd Targed 2030.

67. Holodd Shavanah a oedd undebau'r gweithleoedd wedi bod yn rhan o'r gwaith, ac a oedd unrhyw gyllid ar gael i feithrin gwell sgiliau ym maes technoleg werdd yn y dyfodol.

68. Roedd y Gweinidog yn fodlon cynnwys yr undebau llafur.

69. Dywedodd Judith Cole y byddai'n cysylltu â Shavanah i drafod penodi cynrychiolwyr ar ran yr undebau llafur. Dywedodd Judith mai'r rheswm pam yr oedd y panel datgarboneiddio yn adrodd i'r Cyngor Partneriaeth oedd sicrhau

bod pob rhan o'r sector yn cael cymryd rhan ond gan gadw'r is-banel yn ddigon bach i fod yn ddichonadwy.

70. Roedd Peter Davies yn croesawu’r fenter hon, a phwysleisiodd pa mor bwysig oedd perchnogaeth gymunedol a'r angen i gynnwys hynny yn y drafodaeth.

71. Ategodd Paul Harris sylwadau Peter a dywedodd yr hoffai gofrestru diddordeb y Parciau Cenedlaethol mewn bod ar y pwyllgor.

72. Diolchodd y Gweinidog i bawb am eu cyfraniad.

**GWEITHREDU:** Judith Cole i cysylltu â Shavanah i drafod penodi cynrychiolwyr ar ran yr undebau llafur ar y Panel Datgarboneiddio.

**GWEITHREDU:** Swyddogion sy'n arwain ar y Panel Datgarboneiddio i ystyried cynnwys Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar y pwyllgor.

**<u>Eitem 5 ar yr Agenda − Cyfarfodydd Awdurdodau Lleol − presenoldeb o bell</u>**

73. Agorodd y Gweinidog yr eitem drwy ddweud ei bod yn parhau i dderbyn sylwadau am nifer y cyfarfodydd, a’r math o gyfarfodydd, a oedd yn cael eu cynnal gan yr awdurdodau lleol a phryderon nad oedd nifer, yn enwedig cyfarfodydd craffu, yn cael eu cynnal. Roedd hynny wedi arwain at gwestiynau am yr effaith ar atebolrwydd democrataidd. Roedd y Gweinidog yn cydnabod yr ymdrech fawr yr oedd yr awdurdodau wedi'i gwneud i fynd i'r afael â'r rhwystrau a oedd yn eu hatal rhag cyfarfod, a hefyd yr ymdrechion a wnaed gan swyddogion ac aelodau i gymryd rhan drwy dechnoleg ddigidol. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod wedi ymrwymo i ysgrifennu at holl Aelodau'r Senedd yn nodi'r ystod o gyfarfodydd a oedd yn cael eu cynnal ar draws yr awdurdodau lleol.

74. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bwriad i gadw elfennau allweddol o'r rheoliadau brys a oedd yn caniatáu i gyfarfodydd electronig gael eu cynnal, a’u cynnwys ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

75. Cododd y Gweinidog bryderon ynghylch faint o gyfarfodydd craffu a oedd yn cael eu cynnal a dywedodd fod ei swyddogion wedi gwneud rhywfaint o waith ymchwil i nodi nifer ac ystod y cyfarfodydd. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r wybodaeth yn cael ei dosbarthu ar ôl y cyfarfod ac y byddai'n ddiolchgar pe gallai awdurdodau lleol wirio'r wybodaeth i sicrhau ei bod yn gywir, ei diweddaru yn ôl yr angen ac ychwanegu unrhyw wybodaeth arall er mwyn rhoi’r cyd-destun.

76. Cafwyd trafodaeth am y ffin denau rhwng craffu digon, a gormod o graffu, a dywedwyd mai’r straen ar yr awdurdodau lleol oedd un rheswm dros orfod cynnal llai o gyfarfodydd craffu weithiau. Nodwyd hefyd ei bod yn bwysig ystyried y strwythurau gwahanol sydd gan yr awdurdodau lleol.

77. Roedd adegau hefyd lle'r oedd pwyllgorau craffu'n cyfarfod yn rheolaidd ond nad oedd hynny’n cael ei adlewyrchu ar wefannau’r cynghorau. Byddai camau'n cael eu cymryd i gyhoeddi manylion pwyllgorau craffu ar wefannau yn y dyfodol.

78. Dywedodd Huw Rees fod y sefyllfa'n gyfle gwych i ailystyried trefniadau craffu ac i’w hadnewyddu'r o fewn strwythur cydlynol gan y Llywodraeth.

79. Dywedodd y Gweinidog fod cyllid ar gael i gefnogi'r gwaith o weithredu Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), yn enwedig o ran trawsnewid democratiaeth ddigidol.

**GWEITHREDU:** Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r wybodaeth am gyfarfodydd awdurdodau lleol yn cael ei dosbarthu ar ôl y cyfarfod ac y byddai'n ddiolchgar pe bai’r awdurdodau lleol yn gwirio'r wybodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn gywir, ei diweddaru yn ôl yr angen ac ychwanegu unrhyw wybodaeth arall er mwyn rhoi’r cyd-destun.

**GWEITHREDU:** Byddai camau'n cael eu cymryd i gyhoeddi manylion pwyllgorau craffu ar wefannau awdurdodau.

80. Diolchodd y Gweinidog i'r holl aelodau am gymryd rhan, a daeth â’r cyfarfod i ben.